Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

12 Mai 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | Diweddariad ynghylch Lles, Iechyd a Diogelwch |
| **Cyfeirnod y papur:** | NRW B 36.16 |
| **Paratowyd y papur gan:** | Ashleigh Dunn |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Emyr Roberts |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Gwybodaeth** |
| **Argymhelliad:** | Dylid nodi'r materion a'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | Sut y mae'r cynigion sydd yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Ystyried yr <u>hirdymor</u>:**<br><br>**Gweithredu mewn modd <u>integredig</u>:**<br><br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth:**<br><br>**Gweithio mewn modd <u>cydweithredol</u>:**<br><br>**<u>Atal</u> problemau rhag digwydd:**<br><br>Mae Map Ffordd Cyfoeth Naturiol Cymru yn disgrifio sut y mae ein llwyddiant yn dibynnu ar y modd yr ydym yn cydweithio i greu Cymru well. Mae'r map ffordd yn egluro ein gweledigaeth a'r hyn y byddwn yn ei wneud i'w gwireddu. Drwy'r gwaith yr ydym yn ei wneud a'r modd yr ydym yn ei gyflawni, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella lles, iechyd a diogelwch ein |

| | |
|---|---|
| | staff a'n cwsmeriaid ar draws Cymru. Mae ein gwerthoedd yn golygu y byddwn yn gyfrifol ac yn atebol am ein gweithredoedd ac y byddwn yn gweithredu i'n cadw ein hunain a chadw pobl eraill yn ddiogel ac yn iach. |

## Mater

Diweddariad ynghylch lles, iechyd a diogelwch ar gyfer Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Cefndir

Mae'r papur briffio hwn yn disgrifio'r prif faterion a'r datblygiadau diweddar ynghylch lles, iechyd a diogelwch ac mae'n darparu'r newyddion diweddaraf, y prif ystadegau allweddol a dehongliad yn ogystal â chrynodeb o'r cynnydd a wnaed ynghylch materion penodol.

## Asesiad

**1. Y prif ystadegau ynghylch damweiniau a digwyddiadau fu bron â digwydd ar gyfer 2015-16, gan gynnwys y ffigurau blwyddyn lawn ar gyfer 2014-15 at ddibenion cymharu.**

| | **Digwyddiadau ers yr adroddiad diwethaf i'r Bwrdd (31 Ionawr 2016)** | **Blwyddyn lawn 2015-16[1]** | **Blwyddyn lawn 2014-15[1]** |
|---|---|---|---|
| RIDDOR – staff[2] | 4 | 12 | 0 |
| Digwyddiadau a arweiniodd at golli amser – staff[3] | 1 | 8 | 2 |
| Digwyddiadau lle na chollwyd amser – staff | 12 | 96 | 55 |
| Digwyddiadau fu bron â digwydd – staff | 58 | 304 | 131 |
| Adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol[4] | 1 | 3 | 4 |
| Digwyddiadau – contractwyr | 2 | 6 | 60 |
| Digwyddiadau – y cyhoedd | 9 | 60 | |
| Digwyddiadau fu bron â digwydd – contractwyr | 14 | 88 | 98 |
| Digwyddiadau fu bron â digwydd – y cyhoedd | 16 | 76 | |

[1]Dylid nodi ei bod yn bosibl na fydd modd cymharu'r ffigurau ar gyfer eleni â'r ffigurau ar gyfer y llynedd oherwydd nad adroddwyd yn ddigonol ynghylch digwyddiadau yn 2014-15.
[2]Cafwyd pedwar digwyddiad y mae'n ofynnol adrodd yn eu cylch dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995, ers yr adroddiad diwethaf, ac mae pob un o'r afiechydon yn ymwneud â defnyddio offer dirgrynol – mae rhagor o fanylion i'w gweld yn adran 4 (i) isod.
[3, 4]Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn adran 4(iii) a (iv) isod.

- Mae digwyddiad RIDDOR yn fath penodol o ddigwyddiad y mae'n ofynnol adrodd yn ei gylch wrth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995.
- Digwyddiad a arweiniodd at golli amser yw achos lle mae aelod o staff wedi'i anafu wrth weithio ac, yn dilyn hynny, wedi cael amser i ffwrdd o'r gwaith neu wedi cyflawni dyletswyddau ysgafn o ganlyniad i'w anafiadau (dylid adrodd ynghylch digwyddiad o'r fath dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus os yw'r cyfnod yn fwy na 7 diwrnod). Bydd cyfnod o 'golli amser' yn dechrau ar y diwrnod cyntaf ar ôl i'r unigolyn gael ei anafu.
- Digwyddiad lle na chollwyd amser yw achos lle mae aelod o staff wedi'i anafu wrth weithio ond mai dim ond ychydig o gymorth cyntaf yr oedd ei angen arno, ac nad yw felly wedi cael unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith. Mae digwyddiadau lle na chollwyd amser yn cynnwys difrod i gerbydau ac offer Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Digwyddiad fu bron â digwydd yw digwyddiad nas cynlluniwyd/nas rheolwyd nad yw'n achosi anaf, afiechyd neu ddifrod, ond a allai wneud hynny.
- Mae anafiadau i aelodau'r cyhoedd yn ymwneud yn bennaf â damweiniau beicio mynydd ar ein llwybrau pwrpasol, a phobl yn llithro, yn baglu neu'n cwympo ar lwybrau cerdded. Caiff llwybrau eu hasesu o ran risg a'u harchwilio fel mater o drefn yn gyson, a chânt eu harchwilio hefyd ar ôl damwain.
- Mae digwyddiadau fu bron â digwydd i aelodau'r cyhoedd yn ymwneud yn bennaf ag achosion pan fo'r cyhoedd yn tresmasu ar safleoedd cynaeafu gweithredol.

## 2. Ystadegau ynghylch absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer 2015/16

Ar hyn o bryd, mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn cyfateb ar gyfartaledd i 4.8 o ddiwrnodau'n cael eu colli am bob gweithiwr, sef 2.2%. Mae hwn yn gynnydd bach o gymharu â misoedd blaenorol. Meincnod Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau na chaiff mwy na 7 diwrnod eu colli ar gyfartaledd am bob gweithiwr, sy'n cyfateb i 3.1%.

Dyma'r tri phrif reswm dros absenoldeb, a oedd yn cyfrif am 66% o'r holl achosion o absenoldeb oherwydd salwch yr adroddwyd yn eu cylch:

| | |
|---|---|
| Problemau gyda'r system anadlu | 26.4% |
| Problemau iechyd meddwl | 23.7% |
| Problemau gyda'r system gyhyrysgerbydol a meinwe gyswllt | 15.8% |

Problemau gyda'r system anadlu yw'r prif reswm o hyd dros absenoldeb yn ystod y misoedd diwethaf (dyna'r rheswm dros 26.4% o'r absenoldebau yr adroddwyd yn eu cylch) a gallai patrymau tymhorol a ddisgwylir esbonio hynny. Parheir i dynnu sylw arweinwyr a rheolwyr at absenoldeb oherwydd problemau iechyd meddwl, wrth i ni ganolbwyntio ar wella lles yn y sefydliad.

Mae defnydd y Porth absenoldeb salwch MyNRW galluogi i fynd i'r afael â lefel a nodwyd yn flaenorol o dan adrodd absenoldeb oherwydd salwch gan reolwyr llinell. Yn ddiweddar bu i ni lunio arweiniad ychwanegol i staff ynghylch sut i ddefnyddio'r modiwl absenoldeb, er mwyn esbonio'r system categoreiddio salwch, symleiddio'r system a rhoi sicrwydd y bydd manylion yr absenoldeb yr adroddir yn ei gylch yn cael eu cadw'n gyfrinachol. Mae cymharu data ynghylch absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer chwarter diwethaf 2015-16 â'r un cyfnod yn 2014-15 yn dangos bod gwaith adrodd ynghylch absenoldeb oherwydd salwch yn cyfateb i'r lefelau disgwyliedig yn awr, a'n bod wedi gwella o'r gostyngiad a welwyd yn flaenorol. Bwriedir gwneud rhagor o waith i'n galluogi i nodi ffyrdd pellach o wella ansawdd ein data.

## 3. Lles

Rydym wedi cychwyn nifer o fentrau i ategu ein hymrwymiad i sicrhau lles yn Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Bellach, mae Fframwaith Cynlluniau Buddion Gweithwyr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi'i gwblhau. Bydd yr Ymgynghorydd Lles yn cwrdd â'r darparwr

newydd ym mis Ebrill i lunio’r contract ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, a’r gobaith yw y bydd y contract ar waith o fis Mehefin 2016 ymlaen. Bydd yn darparu buddion i staff Cyfoeth Naturiol Cymru o ran cynlluniau aberthu cyflog a gostyngiadau ar brisiau nwyddau.

- Rydym yn parhau i hyrwyddo ymgyrchoedd lles ar Yammer – megis yr ymgyrch Dewis Doeth – gan annog y staff i feddwl yn ofalus am sut y maent yn defnyddio’r GIG, ac rydym yn parhau i hyrwyddo ffyrdd o ofalu am eu hiechyd meddwl a hyrwyddo llythyrau newyddion gan ein darparwr cymorth i weithwyr, Carefirst.
- Rydym wedi ymrwymo i fod yn rhan o Gynllun Mantais Vodafone, lle gall gweithwyr Cyfoeth Naturiol Cymru a hyd at 5 aelod o’r teulu neu ffrindiau gael hyd at 20% oddi ar brisiau bwndeli Vodafone.

## 4. Prif ddatblygiadau

i. **Syndrom Dirgrynu Llaw-Braich** – yn ddiweddar rydym wedi cyflwyno pedwar adroddiad i’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995, ynghylch aelodau o staff Cyfoeth Naturiol Cymru sydd wedi cael diagnosis o amryw afiechydon galwedigaethol sy’n ymwneud â defnyddio offer dirgrynol. Roedd yr unigolion wedi cael eu cyfeirio at y darparwr iechyd galwedigaethol er mwyn cadw llygad ar eu hiechyd, fel sy’n ofynnol gan y Rheoliadau Rheoli Dirgryniadau yn y Gwaith. Mae’r staff hyn yn gweithio gan mwyaf mewn swyddi ym maes Gwasanaethau Gweithredol yn y gogledd a’r canolbarth. Mae’r tîm Lles, Iechyd a Diogelwch wedi cyfarfod â’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i drafod yr adroddiadau hyn a’n dull ni o ymdrin â Syndrom Dirgrynu Llaw-Braich. Roedd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn fodlon ein bod wedi cytuno i ddatblygu’r asesiadau risg a’r polisi a’r gweithdrefnau priodol a sicrhau bod y camau rheoli ar waith ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru. Er nad yw hwn yn gam gorfodi ffurfiol yn ein herbyn, bydd angen i ni sicrhau bod y mater yn flaenoriaeth uchel i’r busnes ei chyflawni gyda chymorth gan y tîm Lles, Iechyd a Diogelwch. Bydd cwblhau’r camau gweithredu hyn yn lleihau’r risg y gallem wynebu cam gorfodi ffurfiol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

ii. **Adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol –** mae nifer o staff Cyfoeth Naturiol Cymru wedi’u hyfforddi i gynnal adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol. Bellach, bydd yr aelodau hyn o staff yn cymryd rolau arweiniol ar ran y busnes yng nghyswllt digwyddiadau difrifol penodol sy’n ymwneud ag iechyd a diogelwch yn Cyfoeth Naturiol Cymru, e.e. damwain ddifrifol, digwyddiadau o bwys fu bron â digwydd, gydag Uwch-ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch cymwys yn eu cynorthwyo. Mae hynny’n cyd-fynd â’r polisi a’r weithdrefn a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol. Ers yr hyfforddiant, rydym wedi datgan un digwyddiad difrifol (gweler isod) ac mae un o’r aelodau o staff a hyfforddwyd yn ddiweddar wedi cymryd rôl arweiniol ar ran y busnes. Gall y staff hyn gael eu defnyddio i gynnal mathau eraill o ymchwiliadau hefyd, e.e. ymchwiliadau i dwyll, ar ôl cael hyfforddiant ychwanegol.

iii. **Anaf i gontractwr ar y safle cynaeafu a chynhyrchu uniongyrchol yn Nhalyllychau** – cafodd contractwr ei anafu’n ddifrifol tra oedd yn gweithio mewn ardal gynaeafu wyntog yn Nhalyllychau. Roedd y contractwr yn gweithio ar dir serth yn cwympo coed gan ddefnyddio llif gadwyn. Cafodd y contractwr ei daro gan ran gudd o goeden a oedd eisoes wedi cwympo yn y gwynt, pan gafodd coeden a oedd

yn sefyll ei chwympo ar ben y goeden a oedd ar lawr. Mae adolygiad o ddigwyddiad difrifol wedi'i lansio ac mae'n parhau. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cael gwybod am y digwyddiad.

iv. **Anaf i weithiwr, a arweiniodd at golli amser, yn ystod gwaith ailstocio fforest ym Myherin** – syrthiodd y person a gafodd ei anafu ar dir serth gan lanio ar ei arddwrn. Cadarnhaodd ymweliad â'r ysbyty ei fod wedi torri ligament yn ei law dde. Mae'n bosibl y bydd y digwyddiad hwn hefyd yn un y bydd angen adrodd yn ei gylch wrth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ac mae tîm Lles, Iechyd a Diogelwch Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n adolygu'r digwyddiad ar hyn o bryd.

v. **Y diweddaraf am y farwolaeth yn Abercynon** – rydym wedi cael gwybod gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y bydd cwêst y Crwner yn cael ei gynnal dros gyfnod o ddau ddiwrnod yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 20 Mehefin. Mae ein tîm cyfreithiol yn trafod â swyddfa'r Crwner i ganfod a yw'r Crwner yn bwriadu galw unrhyw aelodau o staff Cyfoeth Naturiol Cymru i fod yn dystion. Byddwn yn rhoi cymorth ac arweiniad i staff os byddant yn cael eu galw i fod yn dystion.

**Argymhelliad**

- Dylid nodi'r materion a'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn.

**Prif risgiau**

- Caiff risgiau parhaus o safbwynt Lles, Iechyd a Diogelwch eu nodi a'u monitro drwy'r gofrestr risg ar gyfer Lles, Iechyd a Diogelwch. Ni ragwelir unrhyw risgiau ychwanegol.

**Goblygiadau ariannol**

- Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol. Mae buddsoddi mewn anghenion dysgu a datblygu ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i gynnwys yn y gyllideb hyfforddiant ar gyfer 16/17.

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

- Amherthnasol – papur briffio yn unig.